FFLACHTÂN
FIREFLASH

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Diffoddwch hi, yn Llwyr!

# Mae Smygu'n Lladd!

**75%** wedi'i ailgylchu

Ar ôl gorffen â'r papur yma, cofiwch ei ailgylchu

G/399/07-08
CMK-22-10-065(008)
© Hawfraint y Goron 2007

# Gofal piau hi

Mae tanau a achosir gan ddeunyddiau smygu yn lladd mwy o bobl nag unrhyw fath arall o dân.

Mae tanau sy'n gysylltiedig â smygu yn aml yn digwydd yn ystod y nos ar ôl i bobl fynd i'w gwely. Mae pobl yn ymlacio mwy gyda'r nos - ac efallai eu bod wedi cael diod neu ddau, neu wedi blino. Mae'n bwysig cofio y gallai un archwiliad olaf achub eich bywyd chi a'ch teulu.

## Defnyddiwch eich synnwyr cyffredin -

## byddwch yn ymwybodol o'r risgiau a gwnewch yn siŵr fod eich sigarét wedi'i diffodd!

# Y ffeithiau

- Mae sigarét yn llosgi ar dymheredd o 700°c.
- Mae tybaco yn parhau i losgi - gall fudlosgi'n dawel heb i neb sylwi arno, gan ddechrau tân araf ond angheuol.
- Bob mis mae rhywun yng Nghymru yn marw yn sgil tân sy'n gysylltiedig â smygu, a hyd at 10 person yn cael eu hanafu.
- Mae tân bron un a hanner gwaith yn fwy tebygol o ddigwydd mewn cartrefi lle mae rhywun yn smygu.
- Mae smygwyr bron un a hanner gwaith yn llai tebygol o fod yn berchen ar larwm mwg.

**Mae tybaco yn parhau i losgi**

# Y risgiau

Os ydych yn smygu mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r risgiau tân, a chymryd camau i'w hosgoi:

- Peidiwch â gadael sigarét, sigâr na phib i fudlosgi heb fod neb yno. Gallent syrthio neu gael eu bwrw i'r llawr, a rhoi carped neu bapurau ar dân.
- Byddwch yn ofalus iawn os ydych yn smygu a chithau'n gysglyd, yn cymryd meddyginiaeth, neu o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Hawdd iawn yw syrthio i gysgu a pheidio â sylwi bod sigarét yn dal i fudlosgi.
- Peidiwch â smygu yn y gwely.
- Byddwch yn gyfrifol a gwnewch yn siŵr na all plant gael gafael ar ddeunyddiau smygu.
- Defnyddiwch flwch llwch priodol. Gwnewch yn siŵr na all gael ei fwrw i'r llawr yn hawdd a chofiwch ei wagio'n rheolaidd.
- Rhowch y lludw oer mewn bin y tu allan.

**Os bydd tân -**
**ewch allan,**
**arhoswch allan**
**a ffoniwch**

# 999

**I gael archwiliad diogelwch tân am ddim yn eich cartref gan eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol**

**ffoniwch 0800 169 1234**

**www.fflachtan.org**